# Nifer yr ymgeiswyr sy’n sefyll arholiadau

## Canllaw i’r broses cyflwyno data

Medi 2019

# Cynnwys

Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau ........ 3
Canllawiau cwblhau cyffredinol ........ 4
Fformat ffeil ........ 5
Cysylltiadau ........ 6

# Nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau

## Cyflwyniad

Er mwyn bodloni ein swyddogaethau rheoleiddio ac achredu fel y'u nodwyd yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015[1], rydym yn mynnu bod cyrff dyfarnu'n darparu data arholiadau ar gyfer cymwysterau a reoleiddir.

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar ddogfen *Number of candidates taking exams*[2] Ofqual.

## Pryd fydd data'n cael ei gasglu?

Bydd data'n cael ei gasglu yn unol â'r rhaglen adrodd a gytunir ac a gynhelir gan dîm ystadegau Cymwysterau Cymru, sydd i'w chael ar ein gwefan.

## Pa ddata fydd yn cael ei gasglu?

Bydd data nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau yn cael ei gasglu ar gyfer TGAU, Safon UG a Safon Uwch.

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/contents/enacted
[2] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/654403/6210_Guidance_for_number_of_candidates_taking_exams.pdf

# Canllawiau cwblhau cyffredinol

Mae'r adroddiad data hwn ar gyfer data mewn perthynas â dysgwyr yng Nghymru yn unig.

**Lanlwythwch un ffeil CSB yn unig i bob cyfres arholiadau.** Er enghraifft, os oes gan gorff dyfarnu gofrestriadau ym mhob un o'r tair cyfres arholiadau *(Ionawr, Mehefin a Thachwedd)*, dylid lanlwytho tair ffeil CSB - un ar gyfer pob cyfres. Bydd gan bob cyfres arholiadau bwynt cyflwyno ar wahân ar QiW.

Dylai data fod yn berthnasol i ymgeiswyr a gofrestrodd am unedau/cydrannau hyd yn oed os nad ydynt yn cael tystysgrif.

Dylid cynnwys pynciau cymhwysol, dyfarniadau dwyradd, dyfarniadau sengl a chyrsiau llawn a byr.

Rhaid i benynnau colofn gyfateb yn union.

Ni cheir fformatio gwerthoedd rhifol o gwbl.

# Fformat ffeil

Rhaid i'r ffeil fod mewn fformat CSV a rhaid i'r rhes gyntaf fod yn benynnau fel yr arddangosir yng ngholofn **'Enw**' y tabl isod. Rhaid i'r rhesi dilynol gael gwerthoedd y data i'w adrodd y mae'n rhaid iddynt gyfateb i'r fformat a'r rheolau dilysu isod.

<table>
<tr><th>Enw</th><th>Disgrifiad</th><th>Safle</th><th>Mynegiad Rheolaidd Dilysu</th><th>Disgrifiad o Fynegiad Rheolaidd</th></tr>
<tr><td>Exam Series</td><td>Y gyfres arholiadau y mae'r data'n berthnasol iddi, er enghraifft June 2018</td><td>1</td><td>^(January|June|March|November)([][0-9][0-9][0-9][0-9])$</td><td>Enw mis llawn y gyfres arholiadau a blwyddyn</td></tr>
<tr><td>AwardingOrganisation</td><td>Enw'r sefydliad dyfarnu</td><td>3</td><td>^.{1,100}$</td><td>Derbynnir 1 i 100 o nodau</td></tr>
<tr><td>Centre No.</td><td>Rhif canolfan NCN adeg ardystio</td><td>9</td><td>^.{1,5}$</td><td>Derbynnir 1 i 5 o nodau</td></tr>
<tr><td>Qualification level</td><td>Lefel cymhwyster, er enghraifft GCSE</td><td>4</td><td>^(GCSE|AS|Alevel)$</td><td>Un o'r rhestr ganlynol: GCSE, AS, A level</td></tr>
<tr><td>UniqueCandidateIdentifier</td><td>Dynodwr Ymgeisydd Unigryw (UCI)</td><td>13</td><td>^.{1,13}$</td><td>Derbynnir 1 i 13 o nodau</td></tr>
</table>

# Cysylltiadau

Am bob ymholiad mewn perthynas â'r broses casglu data, newidiadau i ddata a ddarparwyd yn flaenorol, neu am arweiniad cyffredinol, cysylltwch â:

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd NP10 8AR

Rhif ffôn 01633 373 222

E-bost: DataProject@Qualificationswales.org



Cymwysterau Cymru 2019